# tafod elái

RHAGFYR 2016

Rhif 313

Pris 80c


## Eisteddfod y Cymoedd

Parti'r Efail

Cafodd Eisteddfod y Cymoedd ei chynnal mewn lleoliad newydd, Campws y Gwyndy, safle Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yng Nghaerffili, ac roedd safon y cystadlu'n uchel. Yr awyrgylch yn fywiog, i raddau oherwydd bod caffi a bar ar gael.

Roedd nifer o gorau ac unigolion o'r ardal wedi teithio draw a bu aelodau Adran Bro Taf yn llwyddiannus iawn a daeth Parti'r Efail yn gyntaf yn y gystadleuaeth Côr Alaw Werin a Chôr Godre'r Garth yn ail yn y Côr Agored.

Testun y gerdd oedd Yr Arwr a'r enillydd oedd John Emyr o'r Mynydd Bychan gyda'i ddau hir a thoddaid am Lewis Valentine:

Daw i gof heddiw y digyfaddawd,
Y gwron union, gwir ei anianawd;
Cywir ei drywydd, y cawr i driawd:
Annwyl a gwrol, mynnodd roi molawd
I'r Gŵr fu'n orchfygwr gwawd – daeth i'w le
I'w fro a'i goetre o ferw ei gatrawd.

Dros Gymru'i wlad, ymroddiad o'i ruddin
Yn hael a roes drwy hiroes i'w werin;
Ei hyder acw yn nyddiau drycin
Glywaf fel islef tir fy nghynefin;
Goreugwr y gwir egin – a'i eiriau'n
Her a nawdd gorau i'n heddiw gerwin.

Dywedodd y Prifardd Aled Gwyn fod cystadleuaeth yr englyn yn dda iawn. 'Y goreuon yw Waldo, Heulyn a Mabon, Byw mewn ofn, Daniel, Dewi ac Abel, pob un yn gynganeddwyr da ac yn englynwyr galluog, yn glynu at y testun ac yn cyfleu neges,' meddai.

## Colofn Blasus ac Iachus

Rysait arbennig ar gyfer y Nadolig ar dudalen 8.

'Ond yn gyntaf eleni mae Dewi.' Dyma englyn buddugol Martin Huws o Ffynnon Taf:

Heddychwr
Gormod, babanod mewn bedd, a heria
yn hir y gorffwylledd.
Ei lef o blaid tangnefedd,
nid tynnu ond claddu cledd.




Martin Huws

## Cylch Meithrin yn Ennill Gwobrau

Cyflwynwyd dwy wobr genedlaethol i Gylch Meithrin Tonyrefail yn ystod seremoni wobrwyo gyntaf y Mudiad yn Aberystwyth ar ddiwedd mis Hydref. Enillwyd y Wobr Gyntaf yn y Categori Cynhwysiant a'r drydedd wobr yn y Categori Dewin a Doti. Llongyfarchiadau! Ac mae rhagor o newyddion cyffrous gan y Cylch – byddan nhw'n symud i'w cartref newydd o fewn Ysgol Gymraeg Tonyrefail ar ôl y Nadolig.

Enillydd y limrig oedd Denzil John, Caerffili a Ben Jones enillodd y llinell goll ar y noson.

Ddeng mlynedd yn ôl galwodd y Parchedig Ddoctor R.Alun Evans gyfarfod yn festri capel Bethel, Caerffili, i drafod cynnal Eisteddfod yn y cylch.

Parhad ar dudalen 2

**NADOLIG LLAWEN**

**A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

Diolch arbennig i'n gohebwyr a'n dosbarthwyr am gynnal llwyddiant ein papur bro

Neuadd Eisteddfod y Cymoedd yn llawn ar gyfer y cystadlu

# Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg (tudalen 11)

Sioe Y Cawr Mawr Mwyn

Y Briodas

Plant Mewn Angen

Ail Symudiad, grŵp a ffurfiwyd yn y 70'au, ac Y Chwain, grŵp newydd sbon, yn cael hwyl yn Twrw Taf mis Tachwedd. (Lluniau Irfon Bennett)

# Eisteddfod y Cymoedd (o dudalen 1)

Y nod oedd oedd sefydlu gŵyl fyddai'n rhan o rwydwaith eisteddfodau lleol, sylfaen i'r Brifwyl.

Rydyn ni'n ddiolchgar i Alun a nifer o bobol eraill, gan gynnwys Ben Jones, Dafydd Islwyn, Siân Parry Griffiths, Linda Charnel-White, Gwilym ac Eirlys Thomas, Eirian Thomas a Mair Gwynant.

Erbyn hyn, mae Aled John wrth y llyw a nifer o bobol ifanc ar y pwyllgor. Diolch i'r trefnwyr am noson ddifyr a phob lwc gyda'r paratoi ar gyfer yr Eisteddfod nesa.

Cystadlu yn Eisteddfod y Cymoedd

Ioan Minton ac Anna Halliday

# Ysgol Pont-Sion-Norton

**Gala Nofio'r Urdd**
Bu tîm blwyddyn 3 a 4 a tîm blwyddyn 5 a 6 yn brysur iawn yng Ngala Nofio'r Urdd ym mis Tachwedd. Llongyfarchiadau mawr i Gwen Salmon o flwyddyn 4, Caitlyn Vincent o flwyddyn 5 ac hefyd i dîm cymysg cyfnewid blwyddyn 3 a 4, am ddod yn gyntaf yn eu rasys. Byddant yn mynd ymlaen at y rownd genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Ionawr. Pob lwc!!

**Disney**
Llongyfarchiadau i'r côr am gael eu derbyn i ganu yn Disney ym Mharis ym mis Mawrth. Diolch i Mrs Foster a Miss Forey am eu hyfforddi. Mae pawb yn gyffrous iawn!!

**Cyngherddau Nadolig**
Cofiwch am y cyngherddau Nadolig ar ddechrau mis Rhagfyr. Mae pawb wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer.

**Pori drwy Stori (llun)**
Bu plant y dosbarth Meithrin a Derbyn yn canu 5 hwiangerdd 'Pori Drwy Stori' o flaen eu rhieni. Cafodd pawb dystysgrif. Diolch i bawb am ddod.

**Sain Ffagan**
Fel rhan o'u gwaith thema, aeth blynyddoedd 1 a 2 i Sain Ffagan i helpu Beti Bwt i olchi dillad. Bu'r plant wrth eu boddau!

# Ysgol Castellau (tudalen 7)

Sain Ffagan

Llyfrgell Beddau

Wythnos Gwrth-Fwlio

Operation Christmas Child

Menter a Busnes

Timau Pêl-droed

**Talent Ysgrifennu**
Llongyfarchiadau i Scarlett Reid-Gordon am ysgrifennu gwaith creadigol a ddewiswyd ar gyfer llyfr o waith pobl ifanc.

Traws gwlad yr Urdd

Ymweliad Glan-llyn

## Efail Isaf

Colin Parry, aelod o dîm achub Mynydd y Bannau, yn Merched y Wawr Tonysguboriau (Tudalen 10)

Liz West yn cyflwyno syniadau di-ri ar gyfer paratoi danteithion melys ar gyfer y Nadolig i Ferched y Tabernacl.

Steffan Emanuel capten Tîm Rygbi Ysgolion Pontypridd dan 11 oed

Ysgol Evan James yn dathlu Plant Mewn Angen

Osian Roberts yn cael ei holi gan Gareth Blainey mewn noson orlawn yng Nghlwb y Bont (tudalen 11)

Cara Maiden sy'n berchen ar y cafe Polkadot Teapot , Llantrisant (tudalen 6)



# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Capten**
Llongyfarchiadau i Steffan, mab Rob a Beth Emanuel, Heol y Parc ar gael ei ddewis yn gapten Tîm Rygbi Ysgolion Pontypridd dan 11 oed. Mae Steffan yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Castellau. Dal ati Steffan – pwy a ŵyr, efallai y cei di le yn Nhîm Cenedlaethol Cymru cyn bo hir!

**Croeso**
Mae'n bleser cael croesawu teulu arall o Gymry Cymraeg i'r pentref. Mae Owain a Menna Roberts a'r merched bach, Gwenno a Nia wedi ymgartrefu ym Mharc Nant Celyn. Mae Owain, sy'n enedigol o'r Wyddgrug yn gweithio yn y Cynulliad a Menna, sy'n hanu o Gwm Gwendraeth yn Ffisiotherapydd yn Ysbyty Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful. Croeso cynnes i chi i'r pentref.

**Cylch Cadwgan**
Gruffudd Owen oedd y siaradwr gwadd yng Nghylch Cadwgan, nos Wener, Tachwedd 25ain. Brodor o Bwllheli yw Gruffydd ac yn Olygydd Sgript Pobol y Cwm. Mae'n berson diymhongar a chafwyd sgwrs ddifyr, llawn hiwmor ganddo. Er ei fod yn gweithio yn y Brifddinas, ac yn eithaf mwynhau'r bywyd dinesig roedd rhyw euogrwydd yn gafael ynddo gan ei fod wedi gadael ei fro enedigol, ac fe amlygir y teimladau hyn yn rhai o'i gerddi. Roedd yn teimlo'n falch iawn o'i gyfrol gyntaf o farddoniaeth, "Hel llus yn y glaw". Roedd yn braf cael croesawu ei wraig, y bardd a'r ddarlledwraig Gwennan Evans i'r cyfarfod. Daeth y noson i ben gyda datganiad o'r gerdd "Cerdd Dant" a daeth a bri mawr i Gruffudd yn y Babell Lên yn Eisteddfod y Fenni eleni. Noson hwylus iawn.

Cyfarfod nesaf Cylch Cadwgan fydd sgwrs gan Dr Wynne Davies ar nos Wener, Ionawr 20fed 2017 am 8 o'r gloch yng Nghanolfan y Tabernacl. Testun ei sgwrs fydd "Ar gefn ei geffyl".

**Tinsel, Tlysau a Thrimins**
Trefnwyd noson arall i godi arian i Eisteddfod yr Urdd Penybont ar Ogwr nos Sadwrn, 26ain o Dachwedd. Roedd amrywiaeth o stondinau yn Neuadd y Pentre, yn lyfrau, cerdiau, teisennau, gwaith celf, tecstiliau a gwaith pren. Daeth nifer dda ynghyd a phawb yn prynu anrhegion Nadolig am y gorau. Mae'n siŵr y bydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn falch i glywed am elw'r noson.

**Corau'r Pentref**
Bydd Côr yr Einion yn dathlu Gŵyl y Coed Nadolig yn Eglwys Llantrisant eleni eto. Bydd y Côr yn canu yn yr eglwys am 1 o'r gloch y 3ydd o Ragfyr. Ar y 14eg o Ragfyr bydd aelodau'r Côr yn diddanu Cangen merched y Wawr, Tonysguboriau. Bydd yn braf cael ymlacio ar y cyntaf o Ragfyr pan fyddwn yn dathlu ein Cinio Blynyddol.

Wedi eu taith i Gosport mae Côr Godre'r Garth ar daith arall i Ruthun ar 3ydd o Ragfyr i ganu yng nghyngerdd Nadolig Côr Rhuthun. Ddydd Sadwrn, 17ed o Ragfyr bydd y côr yn canu carolau yn Ffair Nadolig Neuadd y Pentref Efail Isaf. Nos Sul, 18fed o Ragfyr bydd Côr Godre'r Garth a Chôr y Cwm yn cynnal eu cyngerdd Nadolig yng Nghapel Tabernacl, Efail Isaf.

Braf oedd gweld Parti'r Efail ar ein sgriniau teledu nos Sadwrn 12fed o Dachwedd yn canu yn yr Ŵyl Gerdd Dant ym Mhwllheli. Gobiethio fod y pedwar aelod a ddioddefodd yr anffawd ar eu ffordd i'r Ŵyl wedi llwyr wella. Bydd y parti'n cynnal Noson o garolau anffurfiol yn Nhafarn y Carpenters, nos Fercher, Rhagfyr 14eg ac yn derbyn cyfraniadau ar gyfer elusen lleol.

**Y TABERNACL**
**Aelodau Newydd i'r Ysgol Sul**
Llongyfarchiadau i Siân Eleri a Darren Fudge ar enedigaeth tripledi. Tri mab bach, Hywel Elis, Islwyn Hartley a Siôr Oswald – yn frodyr bach i Siencyn Jac. Aelodau newydd i Ysgol Sul y Tabernacl.

**Aelodau Newydd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr**
Etholwyd pedwar aelod newydd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr, sef Ann Dwynwen Davies, Emlyn Penny Jones, Geraint Rees a John Llewelyn Thomas. Dymuniadau gorau i chi eich pedwar, oddi wrth holl aelodau'r Tabernacl.

**Elusennau'r Capel**
Cefnogir pobl ifanc sydd yn gadael gofal eleni eto drwy gyflwyno talebau gwerth £20 yr un iddynt a dosberthir drwy law'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gobeithir helpu rhyw 25 o bobl ifanc.

Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol wedi cyflwyno rhestr yr elusennau a fydd yn cael cefnogaeth am y flwyddyn nesaf, sef Gofalwyr Ifanc, Gorwelion Newydd Iechyd Meddwl Aberdâr, Ysgol Tŷ Coch, Prosiect Peilot Cymoedd De Cymru y Samariaid a Gwasanaeth Cwnsela Ieuenctid Rhondda Cynon Taf.

**Casgliad Banc Bwyd Tesco**
Bydd nifer o aelodau'n gwirfoddoli i helpu casglu bwyd ar gyfer y Banc Bwyd yn Siop Tesco Tonysguboriau ar Ragfyr y cyntaf, ail a'r trydydd. Cysylltwch ag Ann Dwynwen Davies os hoffech helpu.

**Apêl Cawell**
Casgliad arbennig o eitemau o fwyd at Apêl Cawell, i fwydo'r digartref yn lleol, fydd elusen yr Ysgol Sul eleni yn ystod Oedfa Nadolig y plant.

Maent hefyd yn apelio am ddefnyddiau hylendid megis sebon, hylif baddon, past dannedd ac yn y blaen ar gyfer Cymorth i Fenywod, Rhondda Cynon Taf.

**Merched y Tabernacl**
Treuliodd aelodau Merched y Tabernacl fore pleserus iawn yn y Ganolfan fore Mawrth, Tachwedd 15fed yng nghwmni Liz West. Roedd Liz wedi paratoi'n drylwyr iawn ar ein cyfer ac fe gawsom syniadau di-ri ar gyfer paratoi danteithion melys ar gyfer y Nadolig. Roedd y goeden Nadolig a'r "roulade" yn wledd i'r llygad. Addurnodd Liz y "cup cakes" yn Nadoligaidd hyfryd ac fe gawsom y pleser o brofi'r danteithion gyda phaned cyn mynd adre. Diolch o galon iti Liz am fore cofiadwy iawn.

Ein cyfarfod nesaf fydd trefnu rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf dros baned o goffi ym Mwyty Pugh's ger Radur, am 10:30 bore dydd Gwener, Rhagfyr 9fed.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Rhagfyr a Mis Ionawr**
Rhagfyr 4ydd Y Parchedig Gethin Rhys
Rhagfyr 11eg Oedfa Nadolig Plant yr Ysgol Sul
Rhagfyr 18fed Oedfa Nadolig y Twmiaid
Rhagfyr 25ain Oedfa fer am 9:30 y bore
Cynhelir Oedfa i Groesawu'r Nadolig am 11 o'r gloch yr hwyr ar Ragfyr 24ain.

Ionawr 1af Oedfa bentrefol o dan ofal aelodau Efail Isaf
Iawn 8fed Y Parchedig Aled Edwards
Ionawr 15fed Gwasanaeth i'r Teulu
Ionawr 22ain Y Prifardd Mererid Hopwood
Ionawr 29ain Y Parchedig Gethin Rhys

# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

**Sul y Cofio**
Cynhaliwyd gwasanaeth hyfryd ym Mharc y Welfare gyda'r haul yn disgleirio'n braf. Roedd nifer o oedolion a phlant wedi ymgynnull i gynrychioli sawl cangen o'r gymuned. Hefyd fe oedd aelodau'r fyddin a'r lu awyr yn bresennol.

**Marwolaeth**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn Lorraine Jones. Roedd Lorraine yn aelod ffyddlon o Gapel Moriah, y guild a'r dosbarth gwnio. Roedd ganddi natur tawel a chyfeillgar ac yn barod i wneud unrhywbeth i unrhywun. Cydymdeimlwn gyda'i theulu Carson, Gill, Olivia a Haydn. Mae'r teulu yn byw yn Mhentre yn y Rhondda ac yn aelodau o Fyddin yr Iachawdwriaeth yna. Roedd Lorraine wastad wrth ei bodd yn mynd yna gyda'i theulu ar gyfer achlysuron arbennig.

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

**Gohebydd y Mis: Awen Evans**

**Cofgolofn**
Dadorchuddiwyd cofgolofn newydd ar y sgwar yn Llantrisant am 11 o'r gloch ar Dachwedd 11eg. Roedd cynrychiolwyr o Gyngor Rhondda Cynon Taf a Phwyllgor Cofeb Rhyfel Llantrisant yn bresennol.

Mae'r gofgolofn wedi ei chodi yn dilyn naw mlynedd o ymgyrch a gwaith ymchwil.

Gwnaethpwyd llawer o'r gwaith ymchwil hwnnw gan Mr Mike John, a fe fu'n gyfrifol am lunio'r rhestr o'r rhai a gollwyd yn ystod y rhyfeloedd. Mr John hefyd a gynlluniodd y gofgolofn a'r seddi o'i chwmpas.

Cynlluniwyd 'Croes yr Aberth' gan y cerflunydd Cymraeg David Petersen, mab y bocsiwr Jack Petersen.

Bu 70 o ddynion o ardal Llantrisant a'r ardaloedd cyfagos, farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ystod yr Ail Rhyfel Byd, ac mewn rhyfeloedd eraill, bu farw 21 o ddynion ac un menyw.

**Cyngerdd**
Cynhaliwyd 'Cyngerdd i Gofio' yn y Ganolfan Hamdden yn Llantrisant ar nos Wener yr 11eg o Dachwedd. Roedd Ysgol Gymraeg Gymunedol Llantrisant ymhlith y rhai a gymerodd rhan yn y gyngerdd. Hefyd, yn cymryd rhan roedd Côr Merched Llantrisant, Côr Meibion Llantrisant, Ysgol y Pant, Ysgol Gynradd Llantrisant, Ysgol Gynradd Penygawsi, Ysgol Gynradd Tonysguboriau, 'Brownies Llantrisant' a Band Cymunedol Rh.C.T.

**Llwyddiant**
Mae Cara Maiden sy'n berchen ar y cafe Polkadot Teapot yn Llantrisant wedi ennill tair gwobr mewn cystadleuaeth rhyngwladol yn Birmingham. Dyma'r gystadleuaeth fwyaf o'i bath yn y byd. Roedd dros 1,300 o bobl wedi cystadlu. Llwyddodd i faeddu 235 o gystadleuwyr eraill yn y categori 'Teisen Briodas'. Fe gymrodd 72 awr i Cara gwblhau'r deisen hon.

Enillodd ddwy wobr aur a gwobr arian. Roedd un wobr aur am y deisen briodas a'r llall am deisen yn dilyn thema Roald Dahl. Cafwyd gwobr arian am deisen ar thema Beatrix Potter.

Roedd Cara yn ymgynghorydd seicatryddol plant am wyth mlynedd cyn mentro i gyfeiriad newydd ddeunaw mis yn ol. Bu'n gwneud teisennau unigryw a deniadol am saith o flynyddoedd cyn penderfynu rhoi'r gorau i'w gwaith fel meddyg a dechrau ar fenter newydd.
Mae'r teisennau yn cael eu harddangos yn y siop ar hyn o bryd!

Gwerthir teisennau ar gyfer dathliadau ac hefyd cynhelir gweithdai ar gyfer cynllunio teisennau amrywiol, personol.

**Groes-faen**

**Gwellhad buan**
Dymunwn adferiad buan i Mick Guilfoyle o'r Groes-faen a gafodd lawdriniaeth frys yn Ysbyty Brenhinol Llantrisant yn ddiweddar. Mae Mick yn gyn bennaeth Ysgol Gyfun Aberpennar ac yn briod a Bethan, cyn bennaeth Ysgol Gyfun Treorci.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

**Pen-blwydd Hapus**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Nerys Snowball wedi iddi ddathlu penblwydd arbennig iawn yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Peter Griffiths a'r teulu wedi i Peter golli ei fam ddechre mis Tachwedd. 'Roedd Mrs. Esther Eiry Griffiths yn 99 mlwydd oed ac fe gynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd hir a dedwydd yng Nghapel Ebenezer, Crwbin.

Cydymdeimlwn yn ddidwyll hefyd â Joy Glyn a'r teulu yn dilyn marwolaeth Elfreda Davies, chwaer hyna' Joy, ddiwedd mis Hydref. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Sant Tomos, Llandudoch.

**Clwb y Dwrlyn**
Dilwyn Morgan, y "stand up," ddaeth i'n diddanu ym mis Hydref. Heb sôn am ei waith fel Cadeirydd Cyngor Gwynedd, ac fel cyn -dafarnwr mae'n wyneb adnabyddus ar Noson Lawen S4C yn ogystal â serennu gyda John Pierce Jones (Mr. Picton) ar y gyfres Codi Hwyl. Wrth drafod beth yw hiwmor a beth sy'n gwneud i bobl chwerthin amlygodd ei ddawn gynhenid i wneud hynny. Gyda'i hiwmor naturiol a chynnes cadwodd y gynulleidfa i chwerthin drwy'r cyfarfod gyda'i atgofion am ei blentyndod drygionus a'r troeon trwstan ers hynny. O "groeshoelio" ffrind yn yr ysgol i'r daith feics yn John O'Groats nid oedd pall ar y straeon doniol gan orffen gydag uchafbwynt yr atalnodi swnllyd. Yn sicr bu'n donic i fyrhau'r gaeaf. Gadawodd pawb y Clwb gyda gwên gan bwffian chwerthin wrth gofio rhai o'r straeon. Edrychwn mlân yn eiddgar at gyfres nesa' Codi Hwyl pan fydd y ddau forwr yn hwylio am Lydaw.

**Dymuniadau Da**
Dymunwn yn dda i Gwilym Williams, Maes y Sarn, wedi iddo fod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Brysia wella Gwilym.

# Capten Llongau

Ar 10 Rhagfyr eleni fe gyhoeddir llyfr diweddaraf Dr David Jenkins o Ffynnon Tâf, sef:-

*I hope to have a good passage.....*
*The business letters of Captain Daniel Jenkins, 1902-11.*

Ceir yn y gyfrol hon bron 500 o lythyrau o lyfr copi a gedwid gan y Capten Daniel Jenkins (1871–1922 ) rhwng 1902 a 1911, yn ystod y cyfnodau pan fu'n gapten ar nifer o longau cargo Caerdydd. Yn ôl pob tebyg, mae'r llythyrau hyn yn unigryw, gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth uniongyrchol ynghylch masnach y llongau hyn yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Dangosant bod llawer mwy i ddiwydiant llongau cargo de Cymru nag allforio glo yn unig ar yr adeg hon. Nid yn unig allforio'r hyn a ystyrid fel prif ffynhonnell tanwydd yr oes - glo ager de Cymru - i wledydd nad oedd ganddynt adnoddau ynni tebyg a wnâi'r llongau cargo hyn, ond roeddent hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth mewnforio grawn i fwydo poblogaeth ddiwydiannol gynyddol y Deyrnas Unedig a gogledd Ewrop. Maent yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o economi a chymdeithas eithriadol gymhleth de Cymru a thu hwnt ym mlynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, a'r rhan chwaraewyd gan forwyr Cymreig yn yr hanes hyn.

Brodor o Aber-porth oedd y Capten Daniel Jenkins a fu'n gapten ar nifer o longau cwmni 'Jenkins Brothers' yng Nghaerdydd; sefydlwyd y cwmni gan ei gefnder James Jenkins. Ceir ei hanes yn hwylio i Fôr y Canoldir, y Môr Du a'r Ariannin yn y llythyrau.

Fe gyhoeddir y gyfrol gan y *South Wales Record Society*; mae ar gael, oddiwrth y Trysorydd Mygedol, 1 Fields Park Avenue, Casnewydd, NP20 5BG am £22-50 + £2-50 am bost a chludiant.



*Rowtor* yn agosau at ddociau Bryste – un o'r llongau y bu'n gapten arni.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

(Lluniau tudalen 3)

**Capten tîm rygbi Ysgolion Pontypridd**
Llongyfarchiadau mawr i Steffan Emmanuel am gael ei ddewis i fod yn gapten tîm rygbi Ysgolion Pontypridd am y tymor hwn. Mae Steff yn dipyn o chwaraewr ac yn amlwg yn arweinydd cryf hefyd. Da iawn ti, mae hyn yn dipyn o anrhydedd.

**Taith Bwyddyn 3 a 4 i Sain Ffagan**
Disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 yn ceisio ymdopi fel plant Oes Fictoria. Dim gwenu, sgwrsio nac anadlu trwy gyfrwng y Gymraeg!

**Ymweliad â llyfrgell y Beddau**
Aeth plant Blwyddyn 4 i lyfrgell y Beddau i gwrdd ag awdur lleol, Mike Dorey. Bu'r plant wrth eu boddau yn ymateb i gwestiynau ar y ffilm y BFG. Dyfeisio enwau dychmygol gyda geirfa gwirion Roald Dahl a chreu llestr lledrithiol oedd uchafbwyntiau'r prynhawn.

**Wythnos Gwrth-Fwlio**
Bu pob dosbarth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Gwrth-Fwlio er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant. Dyma Archarwyr Blwyddyn 1 yn gofalu am ei gilydd ac yn dysgu beth sy'n gwneud ffrind da. – "Swper Tâf!"

**Ymweliad Preswyl i Glan-llyn**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wythnos i'w chofio yng Nglan-llyn tra'n mwynhau gweithgareddau ar Lyn Tegid, cerdded ar lethrau'r Aran, dysgu am gyfnod boddi pentref Capel Celyn ac ymweld â Thryweryn a'r Bala. Braf hefyd oedd cael mwynhau cwmni plant Ysgol Efan James a gwneud ffrindiau newydd cyn mynd i'r ysgol gyfun.

**Traws gwlad yr Urdd**
Bu tîm traws gwlad yr ysgol yn cystadlu yn rasys traws gwlad Yr Urdd yn y Ddraenen Wen. Llongyfarchiadau arbennig i Beca John a Joseph Fowler am ddod yn ail yn eu rasys.

**Pel-droed yn erbyn Llwyncrwn**
Cafwyd gemau pêl-droed cystadleuol iawn yn erbyn Ysgol Llwyncrwn ar eu cae plastig newydd yn ddiweddar. Gydag un tîm yn ennill a'r llall yn colli edrychwn ymlaen i ail chwarae yn y flwyddyn newydd.

**Operation Christmas Child**
Diolch i bawb a gefnogodd elusen Operation Christmas Child trwy baratoi bocs esgidiau yn llawn anrhegion ar gyfer plant llai ffodus. Diolch hefyd i gwmni Edwards am drefnu'r fenter a chasglu'r bocsys.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun Tachwedd 21 cawsom noson gofiadwy iawn ar 'Dylanwad Genynnau ar Glefyd Alzheimer' yng nghwmni Alun Meggy. Mae Alun nawr yn aelod o Adran Niwroleg Prifysgol Caerdydd ac yn gyn ddisgybl o Ysgol y Wern ac Ysgol Glantaf. Dechreuodd trwy ddweud bod dementia neu gorddryswch i ddefnyddio term geiriadur Prifysgol Cymru, yn gyfrifol am ladd mwy o bobl nac un clefyd arall. Ac o'r sawl math o orddryswch, clefyd Alzheimer yw y mwyaf cyffredin. Dangosodd luniau trawiadol o ymennydd iach ac ymennydd claf oedd yn dioddef o'r clefyd ac roedd y gwahaniaeth yn amlwg i bawb. Roedd tyllau mawr yn ymennydd y claf ac roedd ei liw a'i faint yn wahanol.

Pwysleisiodd Alun bod symptomau clefyd Alzheimer yn wahanol ym mhob claf. Mae'r symptomau yn cynnwys colli cof tymor byr, newidiadau personoliaeth, anawsterau gyda cynllunio, methu datrys problemau, methu dygymod âgwaith tŷ ac ymolchi, colli'r gallu i ysgrifennu a chyfathrebu yn ogystal â mynd ar goll mewn llefydd cyfarwydd. Nid yw'n bosib cadarnhau y diagnosis nes marwolaeth y claf, lle gellir gweld strwythurau o'r enw placiau a tanglau yn yr ymennydd. Roedd yn syndod i glywed y gellir dioddef o'r clefyd am 10-15 mlynedd heb ddioddef unrhyw symptomau.

Treuliodd Alun gweddill y ddarlith yn esbonio y gwyddoniaeth tu ôl i sut mae'r placiau a'r tanglau yn ffurfio. Mae'r placiau wedi eu gwneud o brotein o'r enw Amyloid Beta - sylwedd sy'n cael ei waredu o ymennydd iach. Felly mae rhywbeth yn amharu ar y broses yma o waredu gwastraff. Enwodd Alun nifer o enynnau (genes) sydd wedi eu cysylltu a chlefyd Alzheimer, yn eu plith APOE, APP, TREM2, CLU a BIN1. Fel y tybiwch nid yw'r cysylltiad rhyngddynt a'r clefyd yn glir o gwbl, ac nid yw'n bosib beio un genyn, ond mae angen cyfuniad ohonynt cyn gall y clefyd ddatblygu. Yn anffodus, nid yw'n bosib atal y clefyd ar hyn o bryd, ond mae tystiolaeth ystadegol yn awgrymu bod byw bywyd iach yn rhoi rhywfaint o amddiffyniad rhag y clefyd erchyll yma.

**Menter a Busnes**
Disgyblion hŷn yr ysgol yn cael bore diddorol iawn yn dysgu sgiliau menter a busnes gyda Emma o gwmni Edwards. "Doeddwn i ddim yn gwybod bod cymaint o bobl yn gweithio i gwmni Edwards!" meddai Isaac, 9 oed.

# Cyngerdd Cofio John Albert

Nos Wener 18fed Tachwedd trefnwyd cyngerdd gan Y Stafell Fyw i gofio'r diweddar John Albert Evans. A hithau'n noson erwin gynta'r gaeaf a goleuadau Nadolig y ddinas yn gefnlen, ymgasglodd cynulleidfa deilwng yng Nghapel y Tabernacl i gyngerdd a fyddai wedi bod wrth fodd John. Roedd yn hyfryd gweld aelodau'r teulu yn bresennol.

Agorwyd y noson gan Brif weithredwr Y Stafell Fyw, Wynfford Ellis Owen, yn darllen englyn gan gyfaill mynwesol John sef y Prifardd Aled Gwyn.

Trist yw'n gwlad, gwag yw'r Stadiwm
– oer yw'r ias
Sydd ar awch yr hirlwm;
Wrth gofio y troedio trwm,
Caled yw torri'r cwlwm.

Yna daeth Steffan Jones ymlaen gyda'i gyfeilydd, Lowri Guy, i arwain Côr Meibion Taf. Cyflwynwyd croesdoriad o *repertoire* y côr yr oedd John yn arbennig o hoff ohonynt, yn amrywio o emynau mawreddog i sianti forwrol, o ddarnau clasurol i ganu gwerin. Ychwanegwyd at arlwy y noson gan gyfraniadau caboledig ar y gitâr glasurol gan Rhisiart Arwel sydd hefyd yn un o denoriaid y côr.

Cyflwynwyd teyrnged gynnes a chynhwysfawr gan y Parchedig Denzil John. Cyffyrddodd â phob agwedd ar fywyd John – ei gariad at ei deulu, ei gyfraniad i Gymreictod ac addysg, ei obsesiwn â phêl-droed yn arbennig felly tîm y brifddinas ..... y cerddwr a'r gwladwr, y dinesydd a'r cyfarwydd ac, yn anad dim, ei hiwmor. Cyfannwyd y cyfan oll yn ddeheuig gan Denzil, y cyfaill agos a chyd aelod o'r côr a ddaeth â'r holl atgofion yn fyw.

Cynigiwyd y diolchiadau gan Gadeirydd Y Stafell Fyw sef Arwel Ellis Owen gan dalu ei deyrnged bersonol. Yn olaf, daeth Wynfford i grybwyll cyfraniad unigryw John i'r Stafell Fyw ac i grynhoi ei sylwadau, darllenodd englyn iddo gan y Prifardd Emyr Lewis:-

Direidi'r wên, dewrder enaid – geiriau
cyfeillgarwch tanbaid;
llawn hwyl am ei anwyliaid
bob tro; gobeithio di–baid.

## Colofn Blasus ac Iachus

**Mae'n adeg i sbeisys gael y llwyfan**

Dyma'r cyfnod pan fydd y gegin yn gallu arogli ar ei gorau gyda pharatoadau ar y gweill ar gyfer y Nadolig. Does dim arogl gwell na chacen Nadolig yn araf bobi yn y ffwrn. Os nad ydych yn hoff o gacen ffrwyth drom, rhowch gais ar fy rysáit ar gyfer **cacen ffrwyth ysgafn**:

**12oz blawd plaen + 2 lwy de o bowdr pobi + 1 llwy de sbeis cymysg**
**9oz ymenyn (meddal); 9oz siwgr man**
**6oz ceirios glace; 4oz croen cymysg**
**2oz sinsir wedi grisialu; 2oz cnau Brasil**
**4oz bricyll sych; 6oz syltanas; 2oz afal pin glace**
**2oz almonau wedi'u malu; croen 1 lemwn ac 1 oren wedi'i gratio'n fân**
**4 wy + 1 llwy fwrdd o laeth neu sieri**

Paratoi tun pobi 8" neu 9"
Curo'r wyau gyda'r llaeth neu sieri.
Curo'r menyn a'r siwgr mewn bowlen fawr cyn ychwanegu'r wyau pob yn dipyn a'u curo i mewn yn dda.
Cymysgu'r blawd, sbeis a'r powdr cyn eu rhidyllu i mewn yn ofalus - defnyddiwch lwy fwrdd.
Ychwanegu'r ffrwyth, croen lemwn ac oren, almonau wedi'u malu a'r cnau, cymysgwch yn dda.
Rhowch yn y tun pobi a choginiwch am tua 2½ awr ar nwy 2/140◦C.

Ond sbeisys sy'n rhoi'r arogl gorau i'r coginio. Peidiwch gafael yn y jar o sbeis sydd wedi bod yng nghefn y cwpwrdd ers 2010! Mae'n bwysig defnyddio sbeisys sych mewn tua 6 mis o agor y jar - dylech eu harogli ac os ydynt yn bersawrus maent yn iawn i'w defnyddio, os byddant ag arogl llychlyd taflwch nhw allan. Gall fod yn wastraffus i brynu jariau o sbeisys; prynu nhw'n rhydd sydd orau a'u storio mewn jar aerglos; dwi'n prynu sbeisys a pherlysiau sych o stondin 'Clancy's' ym marchnad dan-do Caerdydd. Mae siopau Indiaid neu Ddwyrain Canol yn dda hefyd os am brynu pecynnau mawr o sbeisys am bris rhesymol. Byddwch yn arbrofol gan gofio defnyddio sbeisys i wella blas naturiol bwyd - nid ei guddio; mae'n rhaid bod yn ddetholus gan beidio eu defnyddio'n ormodol ac osgoi defnyddio gormod o wahanol sbeisys ar un adeg.

Mae'r sbeisys ar gael yn rhwydd y dyddiau hyn ond yn yr oesoedd canol roeddynt ymhlith cynnyrch mwyaf drud oedd ar gael yn Ewrop. Allforiwyd sbeisys o blanhigfeydd yn Affrica ac Asia gyda Fenis yn monopoleiddio eu masnach o'r 8fed i'r 15fed ganrif. Y mwyaf unigryw oedd saffrwm, hyd yn oed heddiw mae'n ddrutach nag aur (prynais saffrwm o ansawdd da am bris rhesymol pan ar wyliau yn Marrakesh).

Yn gyfan neu wedi eu malu? Mae sbeisys cyfan yn ychwanegu blas gwych i fwydydd yn enwedig rhai safori fel cyri a tagine, ond mae sbeisys wedi'u malu yn gallu bod yn llawn blas os wedi cael eu storio'n gywir. Mae rhai eithriadau - dylai nytmeg a phupur du gael eu malu yn union cyn eu defnyddio, hefyd mae blas hadau Ffenigl a Anise Seren yn pylu yn fuan ar ôl malu dyna pam maent ar gael yn gyfan.

Dyma fy hoff sbeisys:

**Cwmin** - y prif sbeis mewn cyris a chilli con carne. Mae blas yr hadau yn cael ei ryddhau wrth gynhesu'r hadau mewn padell sych ac mae cynhesu cwmin wedi'i falu mewn ychydig o olew yn cryfhau'r arogl a'r blas.

**Sinamon** - o risgl y goeden llawryf, mae sinamon yn rhoi blas da i gacennau, bisgedi a phasteiod, cwstard a compotes gyda ffyn sinamon yn cael eu hychwanegu i reis (gyda grawn pupur du, clofs a hadau cardamom pan yn ei goginio, ac i win cynnes (mulled) adeg y Nadolig. Dwi hefyd yn hoff iawn o ryseit Byns Sinamon Becca.

**Paprica** - yn boblogaidd mewn bwydydd De America, Sbaen ac yn rhan hanfodol o Goulash Hwngareg. Mae gwahanol fathau ar gyfer bwydydd Sbaenaidd - 'agridulce'(chwerw felys), 'dulce'(melys), 'picante' (poeth) a paprica wedi'i fygu sy'n boeth, hynod aromatig ac yn brif flas mewn chorizo ac ar gyfer paella.

**Clofs** - blagur blodau o goeden drofannol. Defnyddiwch yn gynnil gydag afalau, wrth goginio ham ac mewn saws bara. Cofiwch gael gwared ohonynt o'r bwyd cyn ei weini!

**Nytmeg** - had coeden drofannol sy'n frodorol i Indonesia. Ardderchog wedi'i gratio dros gwstard wedi'i bobi a phwdin reis. Hefyd yn hanfodol mewn pei pwmpen ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rysetiau Indiaid a'r Dwyrain Canol. Defnyddiwch yn ofalus, mae gormod yn gallu rhoi blas meddyginiaethol i fwydydd.

**Seren Anise** -frwyth coeden Tsieineaidd ac yn rhoi blas licris/aniseed i fwydydd. Dwi'n ei hoffi gyda ffon sinamon i flasu ffrwythau wrth eu stiwio neu bobi.

**Pupur** - grawn pupur du sy'n rhoi'r blas gorau. Mae pupur gwyn yr un fath ond heb y plisgyn. Gellir defnyddio grawn pupur gwyrdd a phinc yn gyfan neu wedi'u malu. Mae'r rhai pinc yn aeron wedi'u sychu gyda blas mwynach.

**Sinsir** - gwraidd planhigyn trofannol sy'n flas traddodiadol ar gyfer seigiau melys. Mae sinsir ffres yn rhoi blas da i 'stir-fries' a chyri ac mewn marinadau; gratiwch i wneud te. Gallwch ei gadw yn yr oergell am tua dwy wythnos, dwi'n ei rewi (wedi'i bilio). Mae sinsir wedi'i sychu yn gweithio'n dda mewn pwdinau, fflapjacs a chacennau ffrwythau neu mewn ffrwythau wedi'u stiwio, yn enwedig afal. Mae 'coesyn sinsir' (stem ginger) wedi ei grisialu neu mewn syryp yn dda mewn cacennau, bisgedi , pwdinau wedi'i weini dros hufen ia.

**Hadau cardamom**- sbeis aromatig o India a Sri Lanka ac yn dod o blanhigyn sy'n perthyn i'r teulu sinsir. Gall ffyn cyfan gael eu hychwanegu i seigiau biryani, bhajis a parthas ac maent yn priodi'n dda gyda chig oen a chig dafad. Gall malu'r hadau i'w ddefnyddio mewn pwdinau (ond nid yw'r blas cystal â'r had).

Ar gyfer blasu siwgr, ychwanegwch ychydig sinamon, allspice neu anise wedi'u cymysgu gyda chroen sitrws wedi'i gratio'n fân. Cadwch mewn jar a'i ddefnyddio i daenu dros fisgedi cynnes ffres, mins peis neu dros siocled poeth, Gallwch hyd yn oed rholio peli siocled cartref ynddo.

Mae llugaeron yn boblogaidd adeg y Nadolig ac os am wneud rhywbeth gwahanol gyda nhw ar gyfer gweini gyda chig oer mae'r rysáit hwn yn un hawdd iawn:

**PICL CYMYSG LLUGAERON**

400g llugaeron (ffres neu wedi'u rhewi)
200g afal coginio
1 nionyn coch
Llwy de yr un o sinamon a chlofs wedi eu malu
½ llwy de yr un o turmeric a paprika
25g yr un o detys a sinsir ffres
400g siwgr demerara
Croen a sudd 2 oren fach
2 lwy de o fel
150ml yr un o finegr seidr a finegr gwin coch

Torri'r nionyn a'r detys yn fan. Gratio'r sinsir a croen yr orenau. Pilio a thorri'r afal yn fan.
Rhoi'r cynhwysion i gyd mewn sosban fawr a'u lled ferwi am tua 20 -30 munud. (Rhedeg llwy bren ar draws yr wyneb ac os yw'r llwy yn gadael llwybr ar ei hol, bydd y picl yn barod.)
Rhoi'r picl yn y jariau sydd wedi cael eu sterileiddio pan mae'n dal yn boeth.

**Nadolig Llawen**

## MERCHED Y WAWR

Ar noson oer, y 9fed o Dachwedd, daeth deuddeg o aelodau Cangen Y Garth ynghyd ym Mharc Nantgarw i roi cynnig ar fowlio deg. Wedi dechrau digon simsan gan rai ohonom, gwelodd pawb eu sgôr yn codi'n ganmoladwy (er yn gostwng eto ar brydiau) ond pencampwyr y chwarae oedd Sylvia, Eifiona, Ann ac Olwen. Y dyfarniad terfynol oedd y dylid cynnal noson hwyliog o fowlio a sgwrsio unwaith eto yn y dyfodol.

## Gair o ddiolch gan Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Gyda chwta 6 mis i fynd nes i Eisteddfod yr Urdd gyrraedd Pen-y-bont ar Ogwr Taf ac Elai hoffwn eich llongyfarch fel criw lleol a brwdfrydig am lwyddo i groesi trothwy o godi dros £100,000 yn eich gweithgareddau codi arian lleol. Maen garreg filltir bwysig er mwyn cyrraedd y targed codi arian lleol ond hoffwn ddiolch i chi am eich holl ymroddiad hyd yma gan edrych ymlaen at y cyfnod nesa o godi arian a chodi ymwybyddiaeth o'r Urdd. Mae'n argoeli i fod yn Eisteddfod wych!

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon** (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**
**Mis Rhagfyr 2016:**
4 – Pnawn (am 5:00 p.m.) – Oedfa gymun dan ofal Delwyn Sion
11 – Bore – Ymweld a Chartref yr Henoed (Willowbrooke House)
Pnawn (am 5:00 p.m.) – Gwasanaeth Naw Llith a Charol
18 – Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul (am 5:00 p.m.)
25 – Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.)

**Mis Ionawr 2017:**
1 – Oedfa Gymun dan arweiniad Delwyn Sion
8 – Bore - Oedfa dan ofal y Cwrdd Merched
Pnawn (am 4.30 p.m.) - Gwasanaeth Plygain
15 – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Gwyn
22 - Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths
29 - Oedfa Ddathlu William Williams, Pantycelyn

---

'Rydan ni yn hen gyfarwydd a thermau megis ôl-glasurol, ôl-drefedigaethol, ac ôl-argraffiadol, yn y Gymru a'r byd sydd ohoni, ond mewn syndod y clywais y term ôl-wirionedd ("post-truth") yn cael ei ychwanegu at y rhestr.

Dyma'r gair, yn ôl Geiriaduron Saesneg Rhydychen (yr OED), yn dilyn trafodaeth frwd ac ymchwil trwyadl, sy'n haeddu ei le fel gair y flwyddyn 2016.

A dyma fo'r diffiniad yn ei grynswth fel yr ymddangos yn yr OED:-
*"an adjective defined as 'relating to or denoting circumstances in which objective facts are less influential in shaping public opinion than appeals to emotion and personal belief."*

Yn ôl a ddeallaf, mae'r gair wedi bod mewn bodolaeth am ddegawd a mwy, ond eleni, yng sgil Refferendwm y 23ain o Fehefin ym Mhrydain ac etholiad Arlywyddol mis Tachwedd yn yr Unol Daleithiau, gwelwyd cynnydd sylweddol yn ei ddefnydd, yn benodol yng nghyd-destun "gwleidyddiaeth" [post-truth politics].
['Does ryfedd felly fod cyhoeddwyr y geiriadur y naill ochr a'r llall i'r Môr Iwerydd wedi cytuno ar yr un gair eleni.]
Mae bellach, yn ôl y gwybodusion, wedi symyd o'r ymylon i ganol ein sylwebaeth wleidyddol heb fod angen diffiniad nac eglurhad, ac o'r herwydd yn brawf o'i ddylanwad ar y cydwybod cenedlaethol a rhyngwladol.

Ystyrir fod y rhagddodiad "*post*" yng nghyswllt "*post-truth*" yn arddel yr ystyr o berthyn i amser lle mae'r "gwirionedd" mwyach yn ddibwys ac amherthnasol.

Mae'n debyg mai Mark Twain ddywedodd (cyn dyddiau'r we!) y gall "*celwydd deithio hanner ffordd o gwmpas y byd tra bod y gwirionedd yn dal i roi ei sgidiau ymlaen*".

Yng nghyd-destun y drafodaeth a ddilynodd ar y we wedi'r datganiad gan yr OED, mae sawl un yn holi sut gallwn symyd tu hwnt i'r gymdeithas "ol-wirionedd" honedig hon?

Mae'r ymateb yn ddadlenol – rhaid i ni ddysgu adnabod y gwirionedd pan y gwelwn ef, hyd yn oed os yw hynny yn gallu bod yn anghyfleus i ni ar adegau.

Crybwyllir engreifftiau megis newid hinsawdd, y rhyfela yn y Dwyrain Canol, y tlodi a'r sathru ar hawliau dynol sy'n deillio o bresenoldeb gwledydd y gorllewin yn y mannau hynny y galwn yn "Drydydd Byd"!

Mae un arall yn nodi ein bod, yn ystod y mis a aeth heibio, wedi profi digwyddiad seryddol o bwys gydag ymddangosiad y lleuad llawn ("supermoon"), a hynny oherwydd ei fod ar ei agosaf i'r ddaear ers 1948. Bryd hynny, meddai, yr oedd y byd newydd golli 60 miliwn o'i phoblogaeth oherwydd rhyfela.

Mae o yn dilyn hanes yn union fel y dilyna'r seryddwyr gylch y ser a'r planedau – maent yn dilyn patrwm cyson a ail-adroddir; ond na, nid dilyn patrwm tebyg fydd hanes dynoliaeth, byth…

Un o'r geiriau eraill a ddaeth yn agos at y brig eleni oedd "*hygge*" sy'n cael ei ddiffinio fel a ganlyn:-
*"n. [mass noun] a quality of cosiness and comfortable conviviality that engenders a feeling of contentment or well-being (regarded as a defining characteristic of Danish culture)."*

O na byddai'r OED wedi dewis y gair yma fel gair y flwyddyn!

Ond pa un o'r ddau fyddai agosaf at y gwirionedd tybed?

"*Yn y dechreuad yr oedd y Gair…*" ac ar drothwy prysurdeb y Nadolig, nac anghofiwn am yr un a ddywedodd wrth Thomas "*Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd.*"

---

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

# Merched y Wawr Tonysguboriau

Colin Parry oedd ein gwestai y mis y hwn. Athro yw prif waith Colin ond yn ei amser 'hamdden' mae'n gwirfoddoli fel aelod o dîm achub mynydd y Bannau ac hefyd fel Ymatebydd Cyntaf. Cawsom wybod am waith pwysig mae'r timau hyn yn gyflawni a sut maent yn cael eu hyfforddi i ddelio ag argyfryngau. Diddorol oedd gweld beth sy'n cael ei gario yn y sach deithio fawr oedd yn ymddangos fel pwll diwaelod! Daeth Colin yn enwog yn ystod eisteddfod y Fenni trwy gael ei hen ffrind ysgol, Rhys Ifans, i berfformio CPR ar faes yr wyl!

Ymunwch a ni ym mis Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig gyda Cor yr Einion.

# Dramodydd yn mynd â ni i fyd arall

Fel arfer, fe fyddai cysgodi mewn bar yn Swydd Leitrim yn Iwerddon yn ddelfrydol ar noson pryd mae'r gwynt, medd y brodorion, 'yn ddigon i dorri rhywun'. Ond nid felly yn nrama Conor McPherson, *The Weir*, oedd yn Theatr y Sherman yng Nghaerdydd.

Does dim siâp ar y barman Brendan (Patrick Moy) - dyw'r pwmp Guinness ddim yn gweithio a rhaid bodloni ar boteli ac ambell i wisgi – ond mae'r bar yn troi'n rhywfath o gyffesgell wrth i bedwar dyn geisio creu argraff ar ymwelwr o Ddulyn wrth adrodd eu straeon ysbrydion.

Yr ymwelwr yw Valerie (Orla Fitzgerald), sy wedi dianc o hunlle, ac uchafbwynt y ddrama yw ei stori hi am golli ei phlentyn a'r hyn sy'n digwydd wedyn. Perfformiad meistrolgar, hi'n rhwto ei jîns yn araf wrth adrodd ei stori fel 'se hi'n ceisio cael gwared ar staen euogrwydd.

Steven Elliott sy'n cael hwyl arbennig ar actio rhan Finbar, y dyn busnes slic yn ei siwt wen, ceiliog dandi'r ardal sy'n achosi cenfigen, tra bod Simon Woolfe (Jack) yn effeithiol iawn, yn grintachlyd, yn gro's gra'n ond hefyd erbyn y diwedd yn dyner wrth amlygu ei unigrwydd. Richard Clement sy'n actio Jim, y dyn troi-ei-law-at-bopeth sy'n boenus o swil.

Pob clod i'r dramodydd am fynd â ni i fyd arall. Yr elfen Wyddelig yn amlwg, hyd yn oed yn rhannau mwya tywyll y naratif, mae pelydrau o ffraethineb a hiwmor. Cynhyrchiad graenus o dan ofal Rachel O'Riordan y cyfarwyddwr.

A'r thema? Grym adrodd stori, ei bod yn gysur i rai sy'n gofidio oherwydd methiannau'r gorffennol. Os yw cymuned wledig yn ynysig, fe all gynnig ysgwydd i bwyso arno.

Martin Huws

Jim (Richard Clement), Finbar (Steven Elliott), Brendan (Patrick Moy) a Valerie (Orla Fitzgerald)

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.bethlehem.cymru

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch @gwebethlehem.

# tafod elái

***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***HYSBYSEBION***
***David Knight 029 20891353***

***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Chwefror
i gyrraedd erbyn
20 Ionawr 2017

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.com**

***Argraffwyr:***
**Gwasg Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**

CYMRAEG

***Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**

## CLWB Y DWRLYN

**Canu'r Plygain**
**Yn Eglwys Pentyrch**
**12 Ionawr 7yh**
**Yna am 8.30yh**
**Y Fari Lwyd**
**yn y King's Arms**
Manylion: 029 20890040

## CYLCH CADWGAN

**Dr WYNNE DAVIES**
**yn siarad ar y testun:**
**'Ar gefn ei geffyl'**

**yn Y Ganolfan,**
**Tabernacl, Efail Isaf**
**Nos Wener 20 Ionawr 2017**
**am 8.00pm**

**Cylch Llyfryddol Caerdydd**

**Noson yng nghwmni Caryl Lewis, enillydd gwobr Llyfr y Flwyddyn 2016 am ei nofel, Y Bwthyn.**

**7.00yh Nos Wener, 20 Ionawr 2017**
yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU.

## MERCHED Y WAWR
**Cangen y Garth**

**Creu Addurniadau a Threfniannau Nadolig gyda Ann Mears**
8yh Nos Fercher 7ed Rhagfyr
yn Y Ganolfan Efail Isaf

**Swper Noson Santes Dwynwen**
7.00yh 25ain Ionawr
yn y Miskin Arms
**Ffoniwch am wybodaeth bellach**
**Manylion: 029 20890979**

**Bore Coffi i'r dysgwyr**
**yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.**

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

**Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017**
Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i'r Noson Bingo yn y Savoy.
Ein digwyddiadau nesaf fydd:
Dydd Llun, 12 Rhagfyr am 3.30pm – Te gyda Siôn Corn yn Neuadd yr Ysgol Gynradd. £5 y plentyn.
Dydd Llun, 2 Ionawr – taith gerdded i'r teulu cyfan i roi cychwyn cadarn i'r flwyddyn newydd. Taith wastad ar hyd llwybr cerdded i dafarn y Longbow ac yn ôl. Byddwn yn cwrdd am 2pm gyferbyn â maes parci Clwb Coed-elai.
Nos Wener, 20 Ionawr – Noson Nonsens yn Neuadd yr Ysgol Gymraeg. Ychydig o hwyl a gemau ar noson aeafol oer!
Dilynwch ni ar facebook - https://www.facebook.com/pwyllgortonagilfach/.

## Dawnswyr Nantgarw

Bydd Dawnswyr Nantgarw yn newid ei noson ymarfer i Nos Lun am 7.30pm yn Taffs Well Working Mens Club yn y flwyddyn newydd. Croeso arbennig i aelodau newydd.

## Ysgol Gynradd Creigiau - Llywodraethwyr y Gymuned

Mae Ysgol Gynradd Creigiau yn chwilio am aelodau o'r gymuned i ymuno â'u Bwrdd Llywodraethol gweithgar. Os oes gennych ddiddordeb neu os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â Phennaeth yr ysgol, Mrs Delyth Kirkman ar 02920891045 neu ebostiwch creigiauprm@cardiff.gov.uk.
Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

## MERCHED Y WAWR
**Tonysguboriau**

**Rhagfyr 14eg**
Dathlu'r Nadolig
gyda Côr Yr Einion
yng Nghanolfan Gymunedol
Pontyclun
**Ionawr 18fed**
Beryl Rowley "Steil"
yng Nghanolfan Tonysguboriau

Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

**Clwb y Bont**
Diolch o galon i bawb ddaeth i wrando ar Gareth Blainey yn holi Osian Roberts. Noson hynod o lwyddiannus i'r Clwb.

Mae'r Clwb yn awr ar agor ar nos Fawrth unwaith eto. Mae'r Clwb Jazz wedi trefnu dangos tymor o ffilmiau Jazz ar nos Fawrth.

Mae nifer o ddigwyddiadau ar y gweill yn cynnwys Parti Nadolig yr Aelodau nos Wener Rhagfyr 23ain - bwyd, adloniant a chyfle i gymdeithasu. Mae trefniadau hefyd i ddathlu nos Galan yn y Clwb.

Byddwn yn dathlu Santes Dwynwen gyda noson yng nghwmni Brigyn ac eraill nos Sadwrn 28ain o Ionawr.

Mwy o wybodaeth am yr uchod wrth ffonio'r Clwb - 01443 491424

Cofiwch ddanfon eich ffurflen aelodaeth nôl mor fuan â phosib. Mae nifer o lythyron wedi mynd mas yn electronig ond efallai nad ydynt wedi cyrraedd pawb. Cysylltwch â Jayne am ffurflen (j.rees2012@btinternet.com) neu ffonio 07968438314)

**Pwyllgor Apêl yr Urdd**
Cofiwch am gyngerdd Nadolig Côr Godre'r Garth a Chôr y Cwm nos Sul Rhagfyr 18fed am 7.00 yng Nghapel Tabernacl, Efail Isaf. Fe fydd elw'r noson yn mynd at Bwyllgorau Apêl Lleol Eisteddfod Penybont, Taf ac Elai.

Ym mis Ionawr fe fydd Cwis arall dan ofal aelodau'r Pwyllgor yng Nghlwb y Bont nos Sadwrn, Ion 21ain 2017 am 7.30yh. Timau o 4. £3 y pen

**Clwb Llyfrau**
Cyfarfod ola'r flwyddyn nos Iau, 15fed o Ragfyr. Y nofel dan sylw yw cyfrol ddiweddara'r Cymro, Owen Shears 'I saw a man'

Bydd y Clwb yn mynd nôl i'r hen drefn o gwrdd ar nos Fawrth gan fod Clwb y Bont ar agor eto y noson honno. Y gyfrol dan sylw yw llyfr Ifor ap Glyn 'Tra bo Dau' Byddwn yn cwrdd nos Fawrth, Ionawr 17eg am 8.00yh

**Merched y Wawr**
Llongyfarchiadau i dîm cwis y gangen ddaeth yn ail unwaith eto yn Rhanbarth y De ddwyrain yn y Cwis Cenedlaethol. Mae'r cwestiwn datglwm dal yn ddirgelwch i Cerys, Delyth, Jayne a Menna!

Mae'r Gangen yn cwrdd nos Iau, Rhagfyr 8fed pan fydd yr aelodau'n dathlu'r Nadolig gyda chân, straeon a danteithion y tymor!

Yn y Flwyddyn Newydd fe fydd yr aelodau yn parhau i ddathlu gan fynd am bryd o fwyd nos Iau 12fed o Ionawr 2017.

Ym mis Chwefror Dana Edwards yw'r gwestai pan fydd yn trafod ei nofel 'Pam?' Dewch i Festri Capel Sardis nos Iau, Chwefror 9fed am 7.30.

**Pob lwc**
Mae Huw Blainey newydd ddechrau ar dymor yn y Sherman, Caerdydd yn actio mewn cynhyrchiad o 'The Borrowers'.

**Dymuniadau gorau**
Penblwydd hapus iawn i Wil Morus Jones sy'n cyrraedd oed yr addewid mis yma.

**Siwrne saff**
Fe fydd Taid a Nain, Graigwen yn dymuno Nadolig Llawen i aelodau'r teulu yn hemisffer y de eleni. Mae Eiry Miles, merch Gareth a Gina, a'i theulu yn mynd i dreulio'r Nadolig ym Mhatagonia. Buodd Eiry yn dysgu mas yn y Gaiman bron 13 o flynyddoedd yn ôl. Joiwch!

## Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg (Iluniau tudalen 2)

Cafodd blant Blwyddyn 1 & 2 brofiad bythgofiadwy o chwarae rôl Priodas. Diolch yn fawr iawn i Barchedig a llywodraethwr ysgol - Rosa Hunt am arwain y seremoni yng Nghapel Salem. Diolch hefyd i rieni am eich cyfraniadau, eich cydweithrediad a'ch cymorth i drefnu ein gwledd hyfryd yn y Ganolfan Gydol Oes ar gampws yr ysgol.

Llongyfarchiadau i gôr yr ysgol am ddod yn drydydd yn Eisteddfod y Cymoedd. Ardderchog!

Llongyfarchiadau hefyd i Anna Halliday a Ioan Minton am ddod yn bumed ac yn ail yn ras Trawsgwlad ysgolion cynradd yr ardal.

**Y CMM (BFG)**
Dymunwn bob lwc i'r Adran Iau am eu perfformiadau Nadolig o'r sioe 'Y CMM' (Y Cawr Mawr Mwyn) yn seiliedig ar stori Roald Dahl 'The BFG' yn y MUNI ym Mhontypridd. Mae'r ysgol yn falch iawn o bob un ohonoch chi am eich gwaith caled yn ystod yr ymarferion. Diolch hefyd i'r athrawon a'r staff sydd wedi bod yn rhan o'r cynhyrchiad, creu'r gwisgoedd a'r celfi gwych.

Mae'r ysgol wedi bod yn gweithio'n galed iawn yn ystod y tymor i godi arian er mwyn helpu sawl elusen. Casglwyd £973.96 tuag at 'Plant mewn Angen'. Da iawn i bawb am ymdrechu i wisgo smotiau! Diolch hefyd am eich cyfraniadau at Gymorth Canser MacMillan. Casgwyd £200.11.

Diolch o galon i bawb a gyfranodd yn ariannol neu a roddodd tegan i'w roi yn y bocsus 'Operation Christmas Child'. Diolch arbennig i fam Dior Boit o ddosbarth Mrs Rogers am helpu gyda'r gwaith.

## Ysgol Evan James

Diolch yn fawr i Terry a Hannah o Gyngor Pontypridd am greu llusernau gyda disgyblion blwyddyn 2 a 3 ar gyfer seremoni cyflwyno cerflun James James ac Evan James ym Mharc Ynys Angharad.

Mwynheuodd pob un o flwyddyn 6 eu hwythnos yng ngwersyll yr Urdd Glanllyn.

Aeth disgyblion dosbarth Pwyll a Rhiannon, Blodeuwedd ac Ysbaddaden i wylio Sioe Cwmni Mega yn Ynys Y Barri.

Rydym wedi bod yn brysur yn dysgu can newydd sbon am Bontypridd a'i recordio efo Kizzy Crawford ar gyfer rhaglen newydd sbon Tipini.

Llwyddom i gasglu llwythi o arian ar gyfer Plant Mewn Angen, yn ogystal â mwynhau diwrnod o hwyl a sbri yn yr ysgol!

## Clwb Gwawr Crotesi Creigiau

Rydym wedi sefydlu clwb Gwawr newydd yn yr ardal. Daeth dros 30 ohonom ynghyd i gymdeithasu yng Nghlwb Gwawr Crotesi Creigiau a'r Cylch ym mis Medi. Cawsom noson yn blasu bwydydd Cymreig gyda Siân Roberts o Bentyrch a chyfle i ddod i adnabod Cymry Cymraeg yr ardal.

Bu nifer ar drip siopa i Gaerfaddon ym mis Tachwedd, a byddwn yn ymweld â Bragdy Twt Lol yn Nhrefforest ym mis Rhagfyr. Cyn ddisgybl o Ysgol Gwynllyw - Phillip Thomas sydd wedi dechrau'r fenter newydd yma, a bydd cyfle i brynu cwpwl o boteli fel anrhegion Nadolig. Rhagfyr yr 8fed - cwrdd ym Mragdy Twt Lol, Uned B27, (ger Greggs) CF37 5YB am 7pm ac yna cymdeithasu yn y Creigiau Inn am 9pm
Mae croeso i unrhyw un i ymuno gyda ni. Dewch yn llu.

## O'r Pedwar Gwynt

**Gweld y byd trwy lyfrau**
Mae cylchgrawn llyfrau newydd Cymru, *O'r Pedwar Gwynt* yn darllen, yn holi ac yn herio; yn adlewyrchu ac yn cwestiynu syniadau am y Gymru gyfoes a'i lle yn y byd. Cyhoeddir gwaith beirniadol a chreadigol newydd – yn erthyglau, adolygiadau, straeon a cherddi – a cheisiwn annog trafodaeth fywiog.

Mae rhifynnau print yn ymddangos deirgwaith y flwyddyn – Eisteddfod, Nadolig a Gwanwyn – ac fe gyhoeddir deunydd newydd yn wythnosol ar ein gwefan, www.pedwargwynt.cymru
Tanysgrifiwch i dderbyn y cylchgrawn drwy'r post a chael mynediad llawn i'r wefan am ddim ond £15 y flwyddyn, a hynny drwy ymweld â'n gwefan a thalu ar lein, neu drwy anfon siec yn daladwy i O'r Pedwar Gwynt Cyf., at y cyfeiriad canlynol:
O'r Pedwar Gwynt, Blwch Post 91, Aberystwyth, SY23 1PU.

# Ysgol Dolau (Iluniau tudalen 13)

**Cynhaeaf**
Diolch yn fawr i'r disgyblion am gyfrannu tuag at y banc bwyd lleol yn ystod ein hwythnos Cynhaeaf. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i roi diolch ac i helpu rhai llai ffodus na ni.

**Diwrnodau Pontio Blwyddyn 6**
Aeth disgyblion blwyddyn 6 i'w diwrnod trosglwyddo cyntaf i gael blas o'u hysgolion uwchradd - Ysgol Pencoed ac Ysgol Llanhari. Daeth pawb yn ôl i'r ysgol gan wenu ar ôl diwrnod llawn hwyl a gweithgareddau lle roeddent yn cyd-weithio gyda phlant o'r ysgolion cynradd eraill.

**Rygbi**
Cystadlodd y tîm yng nghystadleuaeth Carwyn Jones 7 bob ochr lle cyrhaeddon y rownd cyn derfynol. Perfformiadau gwych gan bawb yn y tîm. Gwelwyd chwarae ardderchog hefyd yn ei gêm gyfeillgar yn erbyn Pencoed ar gaeau'r ysgol. Dechrau da i'r tymor.

**Pêl-droed**
Teithiodd tîm pêl-droed Dolau i Leckwith i gystadlu yng nghystadleuaeth New Directions. Roedd y tîm yn anlwcus iawn i beidio mynd trwy i'r rowndiau terfynol. Perfformiadau gwych ar y cae a gêm gyntaf da i'r tîm yma.

**Traws-gwlad**
Canlyniadau gwych yn y ras gyntaf eleni yng nghystadleuaeth traws-gwlad ysgolion Pen-y-bont. Rhedodd dros 400 o blant yn yr heulwen gyda nifer o blant Dolau yn gorffen o fewn yr 20 cyntaf. Da iawn i Georgie Wilson am ddod yn drydydd yn ras marched blwyddyn 3 a 4 ac i Kian Wilson am ddod yn drydydd hefyd yn y ras bechgyn blwyddyn 5 a 6. Aeth llawer o blant i redeg yng nghystadleuaeth Taf Elai yng Nghaerdydd - da iawn i bawb a redodd.

**Gwasanaeth Cofio**
Roedd Dolau yn falch iawn i gymryd rhan yng ngwasanaeth cofio'r British Legion ar nos Wener, Tachwedd 11eg. Cafodd y gynulleidfa adloniant bendigedig gyda Charlotte Kwok ar y piano, grŵp o blant yn adrodd cerdd er cof a'r côr yn canu nifer o ganeuon. Mewn cof, wnaeth pob plenty ac aelod staff Dolau greu pabi enfawr ar gae'r ysgol a gafodd ei ffilmio o uwchben. Diolch i bawb a helpodd Dolau gofio unwaith eto eleni.

**Wythnos Ddarllen**
Cymerodd yr ysgol gyfan ran mewn Wythnos ddarllen, yr wythnos Tachwedd 14eg. Wnaeth pob dosbarth gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau tu fewn a thu allan o'r dosbarth, yn dangos fod darllen yn hwyl. Cafodd rhieni eu gwahodd i mewn i gymryd rhan yn y gweithgareddau gyda'u plant. Cynhaliwyd ffair llyfrau llwyddiannus iawn yn ystod yr wythnos hefyd - diolch i bawb a gefnogodd yr ysgol a phrynu llyfrau newydd.

**Sioe Gwyddoniaeth**
Mwynheuodd y plant wylio sioe Gwyddoniaeth yn yr ysgol. Cawson nhw flas o wahanol arbrofion i ddenu nhw i'r clwb ar ôl ysgol. Mae yna nifer o blant yn hoffi mynychu'r clwb Mad Science bob nos Fawrth.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant (Lluniau tudalen 13)

**Y "Super Attender"**
Ar ddechrau mis Hydref fe ddaeth y "Super Attender" i ymweld â ni unwaith eto. Mae pawb yn hen gyfarwydd â'i ymweliadau erbyn hyn ac yn edrych ymlaen i ymuno i mewn yn y canu a'r dawnsio!

**Disgo Calan Gaeaf**
Ar noson Calan Gaeaf gwelwyd llawer o gymeriadau brawychus iawn o gwmpas yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rieni am drefnu'r disgo unwaith eto eleni.

**Gwasanaeth Cynhaeaf**
Ar y cyntaf o Dachwedd, fe gawson ni gyfle i groesawu'r Parch Steve atom ar gyfer gwasanaeth arbennig. Thema'r gwasanaeth oedd pa mor bwysig yw hi i ni werthfawrogi'r amrywiaeth bwydydd sydd gennym. Diolch i'r rhieni am eu cyfraniadau o fwydydd sych a thiniau.

**Y Tîm Pêl-droed**
Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed a gymerodd ran mewn twrnamaint yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Da iawn chi fechgyn!

**Cymorth Darllen**
Ers rhai wythnosau bellach, rydym wedi bod yn croesawu Mrs Morgan a Mrs Williams atom – mae'r ddwy ohonynt wedi bod yn darllen Saesneg gyda phlant yr Adran Iau. Mae disgyblion wrth eu boddau'n cael y cyfle i ddarllen yng nghwmni'r ddwy.

**"Ysbryd y Pwll"**
Ar y 15fed a'r 16eg o Dachwedd, fe aeth disgyblion yr Adran Iau i gyd i lawr i Abertawe i weld y sioe "Ysbryd y Pwll" ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth hyfryd o weithdai yn Amgueddfa Abertawe ac Amgueddfa'r Glannau. Roedd y disgyblion wrth eu boddau gyda'r sioe ac ar ddiwedd y perfformiad roedd cyfle i'r disgyblion holi'r actorion. Rhai o'r cwestiynau mwyaf poblogaidd oedd "pa un ohonoch chi oedd yr ysbryd?" a "sut lwyddodd yr ysbryd i ddiflannu?" Yn anffodus, oherwydd rheolau'r Cylch Hud, doedd dim modd i'r cast rannu'r gyfrinach!

**Plant Mewn Angen**
Eleni eto fe ddaeth y disgyblion i'r ysgol yn eu dillad eu hunain, er mwyn codi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau ym mhob dosbarth a gwerthwyd cynnyrch Pydsi. Erbyn diwedd y dydd, llwyddwyd i godi bron i £800. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael.

**Pêl-rwyd**
Dechrau da i'r tîm ifanc pêl-rwyd eleni. Chwaraeon gêm gyfeillgar yn erbyn Pencoed lle chwaraeon nhw 8 gêm ac yr enillwyr erbyn diwedd y gemau. Roedd llawer o'r chwaraewyr o flwyddyn 3 a 4 - sêr y dyfodol yn chwarae eu gêm gyntaf. Aethon nhw hefyd i gystadlu yn nhwrnament yr Urdd - chwaraeon yn dda iawn a brwydro tan y diwedd ar ôl 5 gêm galed.

# Ysgol Creigiau (Lluniau tudalen 13)

**Pencampwriaeth Trawsgwlad Ysgolion Cynradd**
Aeth 25 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 i gymryd rhan yn rownd derfynol Pencampwriaeth Trawsgwlad Ysgolion Cynradd a drefnwyd gan Chwaraeon Caerdydd mewn partneriaeth ag Athletau Cymru ym Mharc Trelai. Roedd rhedwyr yno o Sir Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a'r Fro. Rhedodd pob un o ddisgyblion Creigiau yn wych - da iawn! Enillodd Sophie y ras i ferched Blwyddyn 6 a fe ddaeth Erin yn 3ydd. Llongyfarchiadau i'r ddwy!

**Plant Mewn Angen**
Ddydd Gwener, 18fed o Dachwedd buom yn dathlu 'Plant mewn Angen' yn yr ysgol. Gwisgodd y disgyblion mewn dillad smotiog a/neu streipiog. Cawsom ddiwrnod llawn hwyl a sbri! Codwyd £650! Gwych!

**Bocsys Esgidiau**
Unwaith eto, rydym wedi cefnogi prosiect Nadolig 'Operation Christmas Child'. Casglon ni 86 o focsys sydd wedi cael eu hychwanegu at gasgliad y gymuned leol.

**Cystadleuaeth Sgio Ysgolion Caerdydd**
Aeth pump o ddisgyblion yr ysgol sef Ffion Lewis, Will Jones, David Evans, Sion Davies a Gruff Gronw i Ganolfan Sgio y Tyllgoed i gystadlu yng Nghystadleuaeth Sgio Ysgolion Caerdydd. Sgiodd y pump yn rhagorol. Ar ddiwedd y bore cyhoeddwyd bod Ffion wedi ennill y wobr gyntaf yn y ras elît i ferched, bod Sion wedi ennill y drydedd wobr yn y ras elît i fechgyn a bod y tîm cyfan wedi dod yn ail yn y gystadleuaeth gyfan! Llongyfarchiadau!

**Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth**
Gofynnodd Cyngor yr Ysgol i bob disgybl wisgo coch ddydd Gwener a dod â chyfraniad bach i gefnogi'r elusen "Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth". Aeth aelodau'r Cyngor Ysgol i ymweld â phob dosbarth i annog y disgyblion i ddatblygu perthnasau da a pharchu'r gwahanaiaethau rhwng pobl, waeth beth yw eu hymddangosiad, ethnigrwydd, ffydd, diwylliant neu genedligrwydd. Codwyd £315 tuag at yr elusen.

**Y Panto Cymraeg**
Ar y 23ain o Dachwedd fe deithiodd 200 o ddisgyblion i'r Barri er mwyn gwylio perfformiad Cwmni Mega o "Blodeuwedd". Roedd pawb wrth eu boddau gyda'r sioe ac wrth eu boddau'n ymuno mewn gyda'r canu a'r dawnsio.

**Sioeau Nadolig**
Ar hyn o bryd mae pawb yn brysur yn paratoi ar gyfer ein sioeau Nadolig. Yn y llun isod mae disgyblion y Feithrin yn ymarfer ar gyfer eu sioe nhw.

## Ysgol Dolau (Tudalen 12)

Sioe Gwyddoniaeth

Amser Darllen

Hwyl Rysetiau

Hwyl y Ffair Lyfrau

## Ysgol Llantrisant

Annog Presenoldeb

Ysbryd y Pwll

Y Tîm Pêl-droed

Plant Mewn Angen

Sioe Nadolig y Feithrin

## Ysgol Creigiau

Cystadleuaeth Sgio

Sophie ac Erin yn y Trawsgwlad

Diwrnod Plant Mewn Angen

# YSGOL LLANHARI

**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Llwyddwyd i gasglu cyfanswm ardderchog o £807 i elusen Plant Mewn Angen eleni. Roedd yr ysgol yn edrych yn lliwgar iawn! Bu'r staff yn brysur iawn yn peintio wynebau

plant yr adran gynradd i edrych fel Pudsey ac fe fwynhaodd disgyblion CA3 sinema yn y pnawn. Diolch i bwyllgor elusennol y chweched am drefnu hwn. Diolch i bob un a gyfrannodd tuag at yr elusen!

**Ymweliad Alun Hughes**

Daeth un o ofalwyr yr Ysgol Mr Alun Hughes i'r ysgol i siarad gyda disgyblion o ddosbarth Cnocell y Coed. Mae gan Mr Hughes ddiddordeb mawr mewn adar a llwyddodd drosglwyddo ei wybodaeth a'i frwdfrydedd i'r disgyblion sydd yn dysgu am adar ar hyn o bryd. Diolch Mr Hughes!

**Adar Ysglyfaethus**
Cawsom brynhawn hyfryd ar Dachwedd 9fed yng nghwmni adar ysglyfaethus! Daeth cynrychiolwyr o'r Ganolfan Adar Ysglyfaethus i arddangos amrywiaeth o adar i'r disgyblion a rhai yn ddigon dewr i'w dal!

**Pobathon 2016**
Mae'r Pobathon yn ei ôl! Dydd Llun yw diwrnod cystadlu eleni ac eisioes gwelwyd safon anhygoel i'r cacennau bach. Yn dilyn y beirniadu, rydym yn gwerthu y cacennau gyda'r elw yn mynd at Eisteddfod yr Urdd 2017. Pwy aiff â hi eleni tybed?

**Ymarfer at y Nadolig**

Mae'r Nadolig yn prysur agosáu ac mae'r plant yn yr adran gynradd yn gweithio'n galed iawn yn dysgu'r holl eiriau ar gyfer eu sioeau Nadolig - a phob un yn edrych yn wych ac yn gwneud eu gorau glas pob tro! Cynhelir dathliad Nadolig yr adran uwchradd yn Eglwys Gatholig Meisgyn ar y 13eg o Rhagfyr eleni.

**Blwyddyn 9 ar grwydr!**
Bu disgyblion blwyddyn 9 yn brysur yn ehangu gorwelion yn ystod wythnosau cyntaf mis Tachwedd. Ymwelwyd â Phwll Mawr gyda'r Adran Hanes ac fe lwyddodd nifer fawr ohonynt i ddringo Penyfan gyda'r Adran Addysg Gorfforol fel rhan o'u cwrs CA3 awyr agored. Mwynhawyd y ddau brofiad yn fawr iawn a diolch i'r athrawon am drefnu.

**Disgo Calan Gaeaf**
Yn ôl yr arfer trefnwyd disgo Calan Gaeaf gan Ffrindiau Llanhari i ddisgyblion yr adran gynradd. Cawsant amser gwych yn eu gwisgoedd ffansi! Diolch i Ffrindiau Llanahri am eu cefnogaeth barhaus.

**Divali**
Bu disgyblion o ddosbarthiadau Cadi Cwningen a Dewi Draenog yn dathlu Divali a oedd yn cyd-fynd gyda'r thema. Dysgon nhw am y stori cyn mynd i'r goedwig i actio a chanu'r rhannu gwahanol. Roedd pob un wedi mwynhau!

**Blwyddyn 7&8 yn mynd i'r Panto yn y Coed Duon**
Mwynhaodd disgyblion iau yr adran uwchradd berfformiad o'r Panto Blodeuwedd gan Gwmni Mega yn ddiweddar. Unwaith eto bu'n gyfle i'r disgyblion chwerthin a dysgu am chwedl Blodeuwedd yr un pryd!

**Clybiau yr adran gynradd**
Mae'r clwb celf wedi bod yn llwyddiannus dros ben ymysg disgyblion blwyddyn 1 a 2. Maent wedi bod wrthi yn creu addurniadau ar gyfer y Nadolig. Cewch gyfle i weld eu haddurniadau a'u gwaith caled yng Ngŵyl y Goeden Nadolig yn Llantrisant ym mis Rhagfyr.

Bu disgyblion Cnocell y Coed yn mwynhau clwb codio o dan arweiniad Mrs Danielle White. Roeddynt wrth eu boddau yn defnyddio 'Scratch' ac yn eiddgar iawn am ddysgu mwy. Diolch yn fawr i Mrs White am gynnal y clwb!

# Ysgol Gyfun Garth Olwg

**Taith Blwyddyn 12 Cymraeg**
Ddydd Iau 20fed o Hydref bu criw ohonom sy'n astudio Cymraeg ym Mlwyddyn 12 yn ddigon ffodus i fynd ar daith i lawr i Fae Caerdydd er mwyn cael ymweld â'r Senedd a hefyd i wylio drama Alun Saunders 'A Good Clean Heart' yng Nghanolfan y Mileniwm. Cawsom ein tywys yn swyddogol o amgylch y Senedd a diddorol iawn oedd gweld y

Siambr lle caiff penderfyniadau holl bwysig eu gwneud sy'n effeithio ar ein bywydau ni gyd. Buom yn ffodus iawn hefyd i gwrdd â Mick Antoniw sef Aelod y Cynulliad dros Bontypridd, ac i gael sgwrs fer gydag ef. Trafod gwahaniaethau oedd drama Alan Saunders gan ddefnyddio bywydau dau frawd

o ddwy hil wahanol - un yn groen ddu a'r llall yn wyn a gwahanwyd ac yna'n dod nôl at ei gilydd, gydag un yn byw yng Nghymru a'r llall yn byw yn Lloegr . Roedd yn ddrama effeithiol dros ben gan fod yn ddoniol ac yn emosiynol yn eu tro. Mae'n ddrama gwerth ei gweld. Cawsom ddiwrnod hwylus dros ben.

Gan Elan Ogleby Bl 12.

**Llwyddiant ffotograffiaeth Jack Osbourne**
Cafodd Jack Osbourne Blwyddyn 13 ei enwebu am wobr Ffotograffiaeth yn gynharach yn y mis. Mi lwyddodd Jack i gwblhau profiad gwaith gyda'r BBC fel

Ffotograffydd 'Stills' ar gyfer ffilm fer newydd o'r enw 'Leonard's Neighbours'. Cafodd Jack ei wahodd i'r Seremoni yng Nghanolfan y Mileniwm nos Wener y 18fed o Dachwedd. Roedd y noson fel noson yr Oscars! Ni enillodd y wobr, ond roedd yn gamp enfawr i gael ei enwebu yn y lle cyntaf!

**Gwaith elusennol Ffion Devonald Jones**
Mae Ffion Devonald-Jones Blwyddyn 9 yn haeddu cydnabyddiaeth am ei gwaith elusennol. Torrodd ei gwallt i helpu'r elusen Little Miss Princess sy'n creu wigiau ar gyfer plant sy'n dioddef o gancr. Hyd yn hyn, mae wedi codi dros £200. Chwarae teg iddi.

**Awduron o fri**

Mae Chloe Stacey, disgybl blwyddyn 10 wedi ennill cystadleuaeth uwchradd Difyr Dahl am ysgrifennu stori fer yn y Gymraeg wedi ysbrydoli gan waith Dahl. Teitl Chloe oedd Y Stryd Fawr a bydd y stori ar gael i'w darllen mewn cyfrol yn y flwyddyn newydd. Mae Chloe hefyd wedi ennill gweithdy gydag awdur proffesiynol. Roedd Emily Fullard Jones hefyd wedi llwyddo i ddod yn eilydd yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw.

**Cwmni BAE**
Daeth cwmni BAE i'r ysgol i siarad am

donnau sain a thonnau cyffredinol gyda blwyddyn 7. Roedd llawer o bethau i wneud er enghraifft roedd pibell blastig a phan roeddech chi'n ei symud rownd a rownd yn gyflymach roedd y bibell blastig yn gwneud sŵn uchel. Hefyd dysgon ni pan rydych chi'n rhoi laser at y wal dydych chi methu ei weld ond pan rydych chi'n rhoi peiriant mwg ymlaen byddech chi'n gallu gweld y laser. Roedd y sioe yn un ddiddorol iawn. Gan Ffion Fairclough a Xanthe Fletcher, Blwyddyn 7.

**Llwyddiant Rygbi**
Llongyfarchiadau i flwyddyn 11 a wnaeth guro Ysgol y Cymer. Byddant yn herio Ysgol y Bontfaen yn rownd nesaf Cwpan Cymru. Hefyd llwyddodd y Tîm cyntaf i guro Radyr a byddant yn wynebu Llanisien yn y rownd nesaf.

Mae tîm blwyddyn 7 ac 8 hefyd wedi ennill eu lle yn rownd derfynol ysgolion Pontypridd.

**Llwyddiant Athletau**
Llwyddodd Harri Wheeler Sexton i gipio'r fedal arian ym Mhencampwriaeth Athletau Dan Do Ysgolion Cymru. Bydd Harri yn mynd ymlaen nawr i gynrychioli Cymru ar y 10fed o Ragfyr yn Iwerddon. Pob lwc Harri!

**Llwyddiant Pêl-rwyd**
Llwyddodd tîm blwyddyn 8 ennill cystadleuaeth genedlaethol yr Urdd ar ddiwedd mis Tachwedd. Gwnaethant ennill bob gêm yn y gystadleuaeth ac felly nhw yw pencampwyr Cymru! Gwnaeth blwyddyn 9 a 10, ac 11,12 a 13 chwarae'n arbennig o dda hefyd.

**Serennu yn y pwll**
Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yng Ngala Nofio Sir yr Urdd yn ddiweddar. Dyma ganlyniadau Garth Olwg:
Owen Leach – 1af Nofio Rhydd Bechgyn Bl 7 ac 8. Issac Chadwick – 2il Nofio Rhydd Bechgyn Bl 9 a 10. Carwyn Salmon – 1af Broga Bechgyn Bl 7 ac 8. Ella Minas – 2il Broga Merched Bl 7 ac 8. Erin Murray – 3ydd Broga Merched Bl 9 a 10. Owen Leach – 1af Pili Pala Bechgyn Bl 7 ac 8. Carwyn Salmon – 1af Cymysg Unigol Bechgyn Bl 7 ac 8. Isacc Chadwick – 2il Cymysg Unigol Bechgyn Bl 9 a 10. Aimee Freegard – 2il Cymysg Unigol Merched Bl 9 a 10. Cyfnewid Rhydd Merched Blwyddyn 9 a 10 – 2il

# Cyfnod o drawsnewid i Glwb Rygbi Pontypridd

Mae Clwb Rygbi Pontypridd yn brwydro 'mlaen drwy dymor digon anodd, gyda'r nod o hawlio safle o fewn wyth uchaf Uwch-Gynghrair y Principality cyn i'r adran hollti i ddwy is-adran o wyth yr un yn y flwyddyn newydd.

Anghysondeb yw problem fawr y garfan, ac hefyd i osod platfform effeithiol ymysg y blaenwyr i ennill meddiant, a thrwy hynny ennill gemau. Mae'n amlwg fod carfan sydd wedi ei tharo'n drwm gan anafiadau dros y misoedd diwethaf weithiau'n ei chael yn anodd i gystadlu, ac angen ricriwtio craff ac effeithiol i'w chryfhau.

Y farn gyffredinol yw fod y clwb ar hyn o bryd mewn cyfnod o drawsnewid ar ol dominyddu'r gem lled-broffesiynnol yng Nghymru dros y chwech tymor diwethaf, ac fod hynny yn broses anochel a hyd yn oed yn angenrheidiol.

Cafwyd canlyniadau siomedig dros yr wythnosau diwethaf, gyda cholledion yn y gynghrair, gartref yn erbyn Glyn Ebwy ac oddi cartref yn erbyn Llanymddyfri a Chaerfyrddin. Roedd patrwm pendant i'r perfformiadau, gyda blaenwyr Ponty yn methu gosod y sylfaen a'r cefnwyr yn aml yn colli eu ffordd ar adegau pan oedd y bel yn eu meddiant.

O leiaf cafwyd buddugoliaethau gartref yn erbyn Castell Nedd ac Abertawe, er fod y ddau glwb hynny eu hunain yn cael tymorhau siomedig ac yn isel eu safle yn y tabl.

Wrth i fis Rhagfyr ddod rhagom mae Pontypridd yn dal gafael ar safle tua canol y gynghrair, ac yn benderfynnol o aros o fewn yr wyth uchaf i mewn i'r flwyddyn newydd.

Dyna'r dasg sydd nawr yn wynebu'r hyfforddwyr, gyda Rob Sidoli a Gareth Wyatt ar y blaen, i roi trefn ar bethau ac i ail fywiogi'r garfan gyda gemau caled a hynod o bwysig ar y gorwel. Y gobaith yng Nghlwb Rygbi Pontypridd yw fod "dyddiau gwell i ddod".

Am yr holl newyddion diweddaraf o'r clwb, galwch mewn i'r wefan: www.ponty.net

# Ysgol Llanhari (o dudalen 14)

**Taith Ffrainc 2016**

Teithiodd disgyblion hŷn yr ysgol sy'n astudio TGAU a Safon Uwch Ffrangeg ychydig yn bellach ar ddechrau hanner tymor gan ymweld â Gogledd Ddwyrain Ffrainc. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn dysgu am ddiwylliant Ffrainc, yn enwedig blasu a chreu bwydydd Ffrengig, hanes yr ardal ac ymarfer eu Ffrangeg yn y marchnadoedd lleol yn Lille a Boulogne. Diolch yn fawr i Mrs Evans am drefnu ac i'r athrawon eraill a fu'n gofalu am y disgyblion tra ar daith. C'était super!

Cyfle i ddweud eich dweud

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Beth yw eich profiad chi o wasanaethau Cymraeg? Beth ddylai cyrff ei wneud er mwyn gwella'u gwasanaethau Cymraeg? Dewch i sgwrsio â staff Comisiynydd y Gymraeg.

Canolfan Soar, Merthyr Tudful, 12/12/2016, 18:00

I gael gwybod mwy, neu i roi gwybod am anghenion dietegol, e-bostiwch post@comisiynyddygymraeg.cymru

#Hawliau